

(yn cynnwys deunyddiau'n ymwneud â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹

1 Cyflwyniad ac Egwyddorion Cyffredinol

- 1.1 Fe sefydlwyd y Panel Diogelwch Cydenwadol yn 2001 fel corff i gefnogi, cynghori a chynorthwyo Undeb yr Annibynwyr, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ynghylch materion diogelu yn eu gwaith â phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus. Mae'r Panel yn gorff cofrestredig sy'n gyfrifol am brosesu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gweithwyr a gwirfoddolwyr y tri enwad, a hefyd am gynorthwyo i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi o ymddiriedaeth o fewn yr enwadau hyn.
- 1.2 Yn 2008 fe ddaeth y Panel yn Gorff Ambarél gyda'r gallu i brosesu gwiriadau datgelu ar gyfer cyrff ac asiantaethau nad ydyn nhw'n aelodau o'r tri enwad uchod.
- 1.3 Mae'r Panel Diogelwch Cydenwadol yn cydymffurfio â Chôd Ymarfer y DBS ar drin, defnyddio, cadw, dal gafael ar a gwaredu Datgeliadau a gwybodaeth Datgeliad yn gywir.
- 1.4 Mae'r Panel Diogelwch Cydenwadol yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwarchod Data a deddfwriaeth arall berthnasol sy'n ymwneud â thrin yn ddiogel, defnyddio, cadw, dal gafael ar, a gwaredu gwybodaeth Datgeliadau a gwybodaeth gyfrinachol, dringar neu ariannol arall y bydd yn ymwneud â hi wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

2 Cadw Gwybodaeth a Mynediad at Wybodaeth

- 2.1 Dydi'r Panel Diogelwch Cydenwadol ddim yn cadw ffeiliau personél ar ymgeiswyr DBS. Mae'r gweithdrefnau sydd wedi eu hamlinellu yn y llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yn cynghori eglwysi, fel rhan o'u proses dewis a recriwtio mwy diogel, i ofyn i wirfoddolwyr gwblhau ffurflen gais sydd hefyd yn ffurflen hunan-ddatgeliad. Mae'r ffurflenni yma ar gyfer yr eglwys ei hun a'i phroses dewis, ac i'w cadw'n lleol mewn modd diogel a chyfrinachol.
- 2.2 Mae'r wybodaeth DBS sydd gan y Panel yn cael ei gadw'n ddiogel a than glo mewn cynwysyddion nad oes modd eu cludo o'u lle. Mae mynediad i'r wybodaeth wedi ei reoli ac wedi ei gyfyngu i'r Blaen Lofnodwr, y Swyddog Diogelu a Swyddog Gweinyddol y Panel Diogelwch Cydenwadol, ynghyd â'r rhai hynny sydd â hawl i'w gweld yn rhinwedd eu swydd ac yn unol â pholisi cytunedig y Panel Diogelwch Cydenwadol mewn perthynas â thrin datgeliadau aneglur.
- 2.3 Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu â'r Panel Diogelwch Cydenwadol ynghylch pryderon diogelu o bob math yn cael ei gadw'n ddiogel a than glo mewn cynwysyddion nad oes modd eu cludo o'u lle. Mae mynediad i'r wybodaeth wedi ei reoli ac wedi ei gyfyngu i'r rhai hynny sydd ag angen ei weld yn rhinwedd eu swydd. Bydd y wybodaeth yn cael ei rannu ag asiantaethau statudol os oes pryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn bregus.
- 2.4 Yn unol ag adran 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997, mae gwybodaeth Datgeliad yn cael ei rhannu'n unig â'r rhai hynny sydd wedi eu hawdurdodi i'w derbyn yn rhinwedd eu swydd. Rydym yn cadw cofnod o bawb y datgelwyd Datgeliad neu wybodaeth Datgeliad iddo, ac yn cydnabod bod cyflwyno'r wybodaeth yma i unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i'w dderbyn yn Drosedd.
- 2.5 **Defnydd:** Mae gwybodaeth datgeliad yn cael ei defnyddio'n unig i'r pwrpas y gofynwyd amdano. Ers mis Mehefin 2013, cyhoeddir un tystysgrif yn unig gan y DBS a'i hanfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd ydi anfon y dystysgrif i Swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol er mwyn cwblhau'r proses ymgeisio.

¹ Mae hwn yn bolisi ychwanegol at y datganiad polisi ar drin yn ddiogel, defnyddio, cadw gafael ar, a gwaredu datgeliadau a gwybodaeth datgeliad. (Atodiad 5 - Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus)

- 2.6 Dal gafael:** Unwaith y bydd penderfyniad ynghylch recriwtio'r ymgeisydd (neu unrhyw fater perthnasol arall) wedi ei wneud, bydd swyddogion y Panel yn dychwelyd y dystysgrif Datgeliad i'r ymgeisydd ac yn gwaredu'n ddiogel unrhyw wybodaeth gysylltiedig. Mae hyn yn broses all gymryd hyd at - ond ddim mwy na - chwe mis, er mwyn caniatáu ystyriaeth lawn o'r wybodaeth yn y Datgeliad a datrys unrhyw anghytundeb neu gwyn all godi.
- Fyddwn ni ddim yn cadw ffotocopi nac unrhyw ddelwedd arall o'r Datgeliad na'i gynnwys ar wahân i'r hyn sydd wedi ei nodi yn 2.6 a 3.3.2. Os, dan amgylchiadau eithriadol, byddwn ni'n ei ystyried yn angenrheidiol cadw'r wybodaeth datgeliad am yn hirach na chwe mis, byddwn ni'n ymgynghori â'r DBS yn ei gylich ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau Gwarchod Data ac i Hawliau Dynol yr unigolyn cyn bwrw ymlaen. Bydd yr amodau arferol ynghylch cadw diogel a rheolau mynediad llym yn parhau mewn grym yn ystod y cyfnod ychwanegol.
- 2.7** Er hynny (yr uchod), rydym yn cael cadw cofnod o ddyddiad cyhoeddi Datgeliad, enw a chyfeiriad yr ymgeisydd sy'n destun y Datgeliad adeg ei gyhoeddi, y math o Ddatgeliad ofynwyd amdano, y swydd berthnasol i'r Datgeliad, rhif cyfeiriol unigryw'r cais a manylion y penderfyniad a wnaethpwyd ynghylch recriwtio'r ymgeisydd. Mae'r manylion hyn yn gymorth i brosesu ceisiadau DBS pellach ac i ddelio ag unrhyw gwestiynau neu bryderon all godi. Os bydd Cytundeb yn cael ei lunio o ganlyniad i'r Datgeliad, rydym yn cael cadw'r wybodaeth sydd ei angen i gynnal adolygiad effeithiol o'r Cytundeb, a hynny dan yr amodau diogelwch a mynediad arferol.
- 2.8** Bydd gwybodaeth sy'n adnabod yr ymgeisydd - ac eithrio'r uchod - yn cael ei dinistrio pan fydd penderfyniad perthnasol i'r datgeliad wedi ei wneud ynghylch y swydd.
- 2.9 Gweithredu fel Corff Ambarél.** Yn rhinwedd ein rôl fel Corff Ambarél (corff sy'n cydlofnodi ceisiadau ac yn derbyn gwybodaeth Datgeliad ar ran cyflogwyr neu gyrff recriwtio eraill), byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cyrff sy'n gwneud defnydd o'n gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â Chôd Ymddygiad y DBS. Byddwn ni hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i fodloni ein hunain o'u bwriad i gydymffurfio'n llawn â'r Côt a'r polisi yma wrth drafod, defnyddio, cadw, dal gafael ar a gwaredu gwybodaeth Datgeliad. Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod polisi ysgrifenedig gan y cyrff neu unigolion sy'n gofyn i ni gydlofnodi ceisiadau am Ddatgeliad ac, os oes angen, yn darparu patrymlun o bolisi i'r corff neu unigolyn hwnnw ei ddefnyddio i'r pwrpas yma.

3 Gwaredu dogfennaeth gyfrinachol

- 3.1** Byddwn ni'n sicrhau bod gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol yn cael ei ddinistrio mewn modd sy'n ei chadw'n ddiogel h.y. drwy ei gynhinio (shredding), ei fathru (pulping) neu ei losgi. Cyn ei ddinistrio, bydd yn cael ei gadw mewn cynhwysydd diogel.
- Pan fydd penderfyniad ynghylch yr apwyntiad wedi ei wneud, bydd gwybodaeth sy'n adnabod yr ymgeisydd mewn cysylltiad â Datgeliad yn cael ei ddinistiro mewn modd sy'n ei gadw'n ddiogel, ac eithrio'r manylion nodwyd yn 2.6 a 4.1.3.

Atodiad 1:

Gweithdrefnau'n ymwneud â dogfennaeth neu sefyllfaoedd penodol

1. Tystysgrifau DBS a gwybodaeth gysylltiedig

1.1 "Tystysgrifau clir" (datgeliad heb unrhyw manylion euogfarn neu wybodaeth gan yr heddlu ayb)

Bydd y Panel Diogelwch Cydenwadol yn nodi dyddiad a rhif y dystysgrif, enw a chyfeiriad yr ymgeisydd, y math o Ddatgeliad a ofynnwyd amdano, y swydd y gofynnwyd am ddatgeliad ar ei gyfer, rhif unigryw'r cais a manylion y penderfyniad recriwtio a wnaethpwyd. Mae'r manylion hyn yn gymorth i gychwyn a phrosesu ceisiadau adnewyddu DBS yn y dyfodol ac wrth ddelio ag unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Bydd y dystysgrif wreiddiol yn cael ei dychwelyd i'r ymgeisydd o fewn 10 diwrnod gwaith. Fyddwn ni ddim yn gwneud copi o'r dystysgrif.

Byddwn ni'n hysbysu ysgrifennydd yr eglwys neu gorff perthnasol bod y proses DBS wedi ei gwblhau a bod yr ymgeisydd yn rhydd i ddechrau neu barhau â'u swydd (gweler hefyd 2.6 uchod).

1.2 "Datgeliadau aneglur" (datgeliad yn cynnwys manylion euogfarn, rhybudd, cerydd neu wybodaeth gan yr heddlu).

- Bydd swyddfa'r Panel yn cysylltu â'r ymgeisydd i gadarnhau bod y wybodaeth gafwyd yn gywir, ac i ofyn am wybodaeth bellach neu amgylchiadau lliniarol. O bryd i'w gilydd bydd angen i'r Panel ofyn am wybodaeth ynghylch yr unigolyn neu'r euogfarn gan drydydd parti er mwyn dod i benderfyniad cytbwys ar y mater. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei gadw a'i waredu'n unol â'r egwyddorion a gweithdrefnau nodwyd uchod.

Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau a cynhelir Panel Cyfrinachol i drafod yr achos. Bydd y wybodaeth gaiff ei chyflwyno i'r Panel yn ddi-enw fel arfer, onibai bod hynny'n rhwystro'n ddifrifol y proses penderfynu.

Hysbysu'r partïon perthnasol o'r penderfyniad:

- Bydd yr ymgeisydd a'r cyflogwr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad yn ysgirfenedig gwyn. Fe all fod yn briodol dan rhai amgylchiadau i drefnu cyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn sensitif. Mae posib gofyn am gyngor proffesiynol ynghylch faint o wybodaeth ddylid ei rhannu a'r ffordd mwyaf priodol i rannu'r wybodaeth gyda'r partïon cysylltiedig ac ymddiriedolwyr.
- Os yn berthnasol, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y DBS neu at awdurdodau statudol, neu gais yn cael ei wneud iddyn nhw am gyngor.
- Os ydi o'n *anghyfreithlon* i'r ymgeisydd weithio gyda phlant neu oedolion bregus bydd y Panel yn ysgrifennu at yr unigolyn, at Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad a'r partïon cyfrifol yn yr eglwys leol (y Gweinidog a'r ymddiriedolwyr fel arfer) i'w hysbysu o hyn.
- Yn aml bydd y Panel yn cynghori nad oes *unrhyw risg penodol* cysylltiedig â'r Datgeliad a'i fod yn iawn i'r unigolyn ymgymryd neu barhau â'r swydd. Mewn rhai achosion fe all y Panel Cyfrinachol gynghori bod posib i'r unigolyn weithio neu wirfoddoli, ond yn *gwneud argymhellion, yn awgrymu gosod amodau* neu'n cynnig cyngor ar gyfer diogelu ymgeisydd neu bartïon eraill. Bydd y wybodaeth cysylltiedig ag argymhellion neu gyngor o'r fath yn cael ei rhannu'n unig â'r rhai sydd â'i hangen.
- Os ydi'r Panel, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth a'r amgylchiadau, yn credu y byddai'n amhriodol neu'n annoeth (yn hytrach nag yn anghyfreithlon) i'r ymgeisydd ymgymryd â'r rôl, yna bydd y Panel yn cynnig cyngor ac argymhellion i'r eglwys neu gorff cyflogi. Bydd y wybodaeth gysylltiedig ag argymhellion neu gyngor o'r fath yn cael ei rhannu'n unig â'r rhai sydd â'i hangen. Byddai pwyslais ar gyfrinachedd mewn achos o'r fath.
- Ar ddiwedd y proses penderfynu bydd y dystysgrif wreiddiol yn cael ei dychwelyd i'r ymgeisydd.

Storio /dal gafael Os bydd Cytundeb yn cael ei lunio yn sgîl yr wybodaeth sydd yn y Datgeliad neu lle bydd angen adolygu'r achos yn ddiweddarach, bydd y wybodaeth sy'n angenrheidiol i alluogi adolygiad effeithiol yn cael ei gadw mewn storfa ddiogel.

1.3 Datgeliadau pellach

Bydd Swyddfa'r Panel yn cadw cofnod (log) cyfrinachol mewn storfa ddiogel o ddatgeliadau aneglur y deliwyd â nhw ac o'r penderfyniad wnaed yn eu cylch. Bydd hyn yn caniatáu delio â datgeliadau pellach yn ddi-oed ac yn effeithiol.

Bydd Datgeliad pellach sy'n cynnwys yr un wybodaeth â'r Datgeliad blaenorol yn cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu ynghyd â chyd-lofnodwr fydd - onibai bod pryderon ychwanegol wedi dod i'r amlwg - yn cadarnhau'r penderfyniad blaenorol. Os ydi'r Datgeliad yn cynnwys gwybodaeth newydd neu ychwanegol bydd y proses trin Datgeliadau Aneglur yn ailgychwyn.

2. Ffurflenni hunan-ddatgeliad sy'n cael eu hanfon i Swyddfa'r Panel

2.1 Mae hawl gan ymgeisydd i ddewis anfon ei ffurflen hunan-ddatgeliad i Swyddfa'r Panel os nad ydi o neu hi am ddatgelu gwybodaeth sensitif yn lleol. Bydd y ffurflenni yma'n cael eu trin yn yr un modd â thystysgrifau Datgeliad DBS aneglur, a bydd y wybodaeth angenrheidiol yn cael ei rhannu â'r eglwys leol a'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn unol â phenderfyniad y Panel Cyfrinachol (gweler 1.2 uchod).

2.2 Bydd ffurflenni sy'n cael eu hanfon mewn camgymeriad i Swyddfa'r Panel yn cael eu trin mewn modd diogel. Bydd swyddog yn cysylltu â'r ymgeisydd er mwyn trafod a chytuno ar sut i fwrw ymlaen e.e. dychwelyd y ffurflen i'r ymgeisydd ynteu ei hanfon at ysgrifennydd yr eglwys.

3. Gwybodaeth am bobl sydd wedi cam-drin, am achosion o gamdriniaeth ac achosion lle mae camdriniaeth wedi ei amau

3.1 **Pryderon neu amheuan ynghylch cam-drin:** Bydd y wybodaeth fydd yn cael ei chyflwyno i'r Panel ynghylch camdriniaeth posibl neu bryderon cyfrinachol eraill yn cael ei chadw dan glo mewn cynhwysyddion nad oes modd eu cludo o'u lle. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu yn y modd priodol â'r awdurdodau statudol, ysgrifennydd cyffredinol yr enwad perthnasol ac â'r ymddiriedolwyr neu unigolion cyfrifol lleol. Lle bydd rheswm dros ddal gafael ar wybodaeth o'r fath (e.e. i ganiatáu adolygu pellach) bydd yn cael ei gadw dan glo mewn cynhwysydd nad oes modd ei gludo o'i le.

3.2 **Cytundeb ag unigolyn sydd wedi cam-drin:** Os ydi gwybodaeth yn ymwneud â throstedd neu gamdriniaeth i'w ddefnyddio i ddatblygu Cytundeb rhwng unigolyn sydd wedi cam-drin ac eglwys leol, bydd yn cael ei chadw'n ddiogel a'i rhannu'n gyfrinachol â'r awdurdodau statudol priodol ac arweinwyr neu ymddiriedolwyr perthnasol yr eglwys leol. Bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei chadw'n ddiogel ar gyfer adolygiadau o'r Cytundeb yn y dyfodol. Yr eglwys leol berthnasol sy'n gyfrifol am gadw gwybodaeth a rannwyd yn ddiogel. Mae'r proses adolygu'n gyfrifoldeb yr eglwys leol berthnasol a bydd swyddogion y Panel ar gael i gynnig cyngor. Bydd y wybodaeth ynghylch yr achos yn cael ei waredu mewn modd diogel pan nad oes rheswm pellach dros ddal gafael ynddi.

3.3 **Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud ag amheuaeth o gam-drin neu gamdriniaeth hanesyddol yn cael ei rhannu â'r awdurdodau statudol perthnasol a'i waredu mewn modd diogel pan nad oes rheswm pellach dros ddal gafael ynddi.**

4. Dogfennaeth gyfrifo ac ariannol

Bydd gwybodaeth gyfrifo a gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithrediad y Panel fel cwmni cyfyngedig dan warant yn cael ei chadw am 6 mlynedd ar ôl y flwyddyn ariannol gyfredol yn unol â'r canllawiau ar gyfer Cwmnïau cyfyngedig dan warant. Ar ddiwedd y cyfnod yma bydd y wybodaeth yn cael ei waredu. Bydd dogfennau ariannol yn cael eu rhannu yn y modd priodol ag aelodau'r Panel a chyfrifydd.